

Mae'r canllawiau isod wedi eu gosod i gyd-fynd gyda cwestiynau sydd wedi eu cynnwys yn Ffurflen Gais Gronfa Cefnogi Adfywio Gwynedd

MANYLION YR YMGEISYDD

1.	I ba Gronfa yr ydych yn Ymgeisio	Ticiwch y blwch perthnasol
2.	Prif sefydliad sy'n Gwneud y Cais	Rhowch enw'r sefydliad sydd yn cyflwyno'r cais
3.	Cyfeiriad y Sefydliad	Cyfeiriad y sefydliad sydd yn cyflwyno'r cais
4.	Beth yw natur eich sefydliad	<p>Gall unrhyw sefydliad sydd ddim yn dosbarthu elw (ac eithrio Mentrau Cymunedol sy'n dosbarthu elw i fuddsoddwyr) ymgeisio ar arian drwy'r gronfa.</p> <p>Mae'n rhaid i unrhyw sefydliad fod wedi eu lleoli, ac yn darparu ar gyfer trigolion Gwynedd i geisio am gefnogaeth drwy'r gronfa.</p> <p>Mae'n rhaid cyrraedd y meini prawf canlynol os am gesio am arian o'r gronfa;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ni all eich sefydliad ddosbarthu elw (oni bai am Fentrau Cymunedol sy'n dosbarthu elw i fuddsoddwyr) • Rhaid i'ch sefydliad fod a statws cyfreithiol a chyfansoddiadol • Rhaid i'ch sefydliad fod a strwythur rheoli clir • Rhaid i'ch sefydliad gael sustem rheolaeth ariannol glir • Bod ag egwyddorion gweithredol sy'n cyd-fynd a deddfwriaeth ar gyflogaeth, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb i weithwyr a gwirfoddolwyr • Dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i gydraddoldeb yn gysylltiedig a mynediad, iaith, diwylliant, rhyw a materion ethnig • Yn meddu ar amcanion a nodau sydd yn cyd-fynd a gweithgareddau ariannir drwy'r grant yma • Dangos bod grwpiau ac unigolion eraill yn yr ardal yn cefnogi'r gweithgaredd/cynllun • Rhaid dangos bod egwyddorion gwerth am arian wedi eu dilyn wrth ddatblygu, gweithredu a rhedeg y cynllun • Bod egwyddorion gweithredol yn eu lle sy'n cyd fynd a ddeddfwriaeth amddiffyn plant ac oedolion bregus. <p>Noder na allwn dderbyn ceisiadau gan unigolion i'r gronfa</p>
5.	Rhif y Cwmni /Elusen	Nodwch Rhif cwmni / elusennol y sefydliad os yn berthnasol
6.	Enw Cyswllt Arweiniol	Nodwch enw'r prif gyswllt sydd yn gweithredu ar ran y sefydliad a Teitl swydd o fewn y sefydliad

Mae'r canllawiau isod wedi eu gosod i gyd-fynd gyda cwestiynau sydd wedi eu cynnwys yn Ffurflen Gais Gronfa Cefnogi Adfywio Gwynedd

7.	Enw Cyswllt Eilaidd	Nodwch enw eilydd ar ran y sefydliad a Teitl o fewn y sefydliad
8.	Rhif Ffôn Cyswllt	Nodwch rhif ffôn y gallwn ei ddefnyddio ar gyfer cysylltu a chwi i drafod unrhyw faterion yn ymwneud a'r cais
9.	Cyfeiriad e-bost	E-bost y prif gyswllt – fe fydd pob gohebiaeth parthed eich cais yn cael ei anfon i'r cyfeirid e bost a nodir yma
10.	Cyfeiriad Gwefan y sefydliad	Safle we'r sefydliad ynghyd a manylion cyfrifon cymdeithasol e.e. Twitter, Facebook, Instagram
11.	Oes gan eich sefydliad gyfrif banc yn ei enw sydd angen llofnod dau berson i awdurdodi Taliadau.	<p>Maen rhaid i bob cais sydd yn dod i mewn fod yn enw sefydliad sydd a chyfrif banc a chyfansoddiad</p> <p>Os yw eich grwp yn sefydliad newydd sydd yn y broses o agor cyfrif banc, ond nad yw'r cyfrif wedi agor o fewn amserlen y gronfa, mae posib i ni ystyried ceisiadau gan sefydliad arall o fewn eich Cymuned sydd yn gefnogol i'ch cynllun. Yn yr achos yma bydd angen i chi anfon tystiolaeth bod eich cyfrif banc yn y broses o gael ei agor, ynghyd a thystiolaeth o gytundeb rhwng eich sefydliad a'r sefydliad bydd yn ceisio i'r gronfa ar eich rhan.</p> <p>Noder na fydd y cytundeb yma yn amharu ar allu yr un sefydliad i geisio am grant ar gyfer cynllun gwahanol drwy'r gronfa.</p>
12.	Ydi eich grwp yn hawlio TAW	Os nad yw eich sefydliad yn hawlio taw gallwch geisio am grant yn cynnwys y costau TAW. Os yw eich sefydliad yn hawlio TAW ni fydd modd cynnwys TAW eitemau fel rhan o'r cais.
13.	Beth yw prif weithgaredd ac amcanion eich sefydliad	Disgrifiwch beth yw prif weithgaredd ac amcanion eich grŵp (hyd at 150 gair)
14.	Os ydych yn gweithio gyda phlant neu oedolion bregus, nodwch pa gamau a gymerir i'w diogelu	Dylid yma gyfeirio at unrhyw bolisi a threfniadau sydd mewn lle gan eich sefydliad i ddiogelu plant neu oedolion bregus.

Mae'r canllawiau isod wedi eu gosod i gyd-fynd gyda cwestiynau sydd wedi eu cynnwys yn Ffurflen Gais Gronfa Cefnogi Adfywio Gwynedd

Yn unol a chanllawiau rhaglen SPF, dyma prif Ymyriadau, Allbynnau a Chanlyniadau sydd yn berthnasol i'r Gronfa Galluogi Adfywio Ein Cymunedau

CRONFA GALLUOGI ADFYWIO EIN CYMUNEDAU		
Ymyriadau	Allbynnau Dangosol	Canlyniadau Dangosol
<p>W1: Cyllid ar gyfer gwelliannau i ganol trefi a'r stryd fawr, gan gynnwys gwell hygyrchedd i bobl anabl, gan gynnwys gwariant cyfalaf a chostau rhedeg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Nifer a m2 adeiladau masnachol a gaiff eu datblygu neu eu gwella Faint o dir neu safleoedd a gaiff eu hadfer Faint o dir y cyhoedd a gaiff ei greu neu ei wella Faint o seilwaith ynni carbon isel neu di-garbon a gaiff ei osod Nifer y cynlluniau datgarboneiddio a gaiff eu datblygu Metrau sgwâr o dir a gaiff ei addasu er mwyn bod yn hygyrch i gadeiriau olwyn/dim grisiau 	<ul style="list-style-type: none"> Swyddi a gaiff eu creu Swyddi a gaiff eu diogelu Cynyddu nifer yr ymwelwyr Mwy o ymwelwyr Llai o eiddo gwag Gostyngiadau mewn nwyon tŷ gwydr Gwell canfyddiad/profiad o hygyrchedd Gwell canfyddiad o gyfleusterau/amwynderau
<p>W2: Cyllid ar gyfer prosiectau seilwaith cymuned a chymdogaeth newydd, neu welliannau i brosiectau o'r fath sy'n bodoli eisoes gan gynnwys y rheini sy'n gwella cydnerthedd cymunedau o ran peryglon naturiol, fel llifogydd, a buddsoddi mewn cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a rheoli gwastraff o dan berchenogaeth leol er mwyn gwella'r broses o drosglwyddo i ddulliau byw carbon isel Gallai hyn gynnwys gwariant cyfalaf a chostau rhedeg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y sefydliadau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau Nifer y sefydliadau sy'n cael grantiau Nifer y sefydliadau sy'n cael cymorth anariannol Nifer y gwelliannau a gaiff eu gwneud i gymdogaethau Nifer y cyfleusterau a gaiff eu cefnogi/creu Nifer y digwyddiadau neu weithgareddau lleol a gaiff eu cefnogi Faint o seilwaith ynni carbon isel neu di-garbon a gaiff ei osod Nifer yr eiddo sydd wedi'u hamddiffyn yn well rhag llifogydd ac erydu arfordirol 	<ul style="list-style-type: none"> Swyddi a gaiff eu creu Swyddi a gaiff eu diogelu Gostyngiadau mewn nwyon tŷ gwydr Mwy o bobl yn defnyddio cyfleusterau/amwynderau Gwell canfyddiad o gyfleusterau/prosiectau Mwy o eiddo wedi'u hamddiffyn yn well rhag llifogydd ac erydu arfordirol
<p>W3: Creu a gwella mannau gwyrdd lleol, gerddi cymunedol, cyrsiau dŵr ac argloddiau, ac ymgorffori nodweddion naturiol a gwelliannau bioamrywiaeth mewn mannau cyhoeddus ehangach.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Faint o dir neu safleoedd a gaiff eu hadfer Metrau sgwâr o dir a gaiff ei addasu er mwyn bod yn hygyrch i gadeiriau olwyn/dim grisiau Faint o dir y cyhoedd a gaiff ei greu neu ei wella Nifer y cyfleusterau a gaiff eu cefnogi/creu Faint o fannau gwyrdd neu las a gaiff eu creu neu eu gwella Faint o ffyrdd beicio neu lwybrau beicio newydd neu wedi'u gwella a geir Nifer y gwelliannau a gaiff eu gwneud i gymdogaethau Nifer y coed a gaiff eu plannu 	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu nifer yr ymwelwyr Gwell canfyddiad o'r cyfleuster ar ôl cael cymorth Mwy o ymwelwyr Mwy o ddefnydd o ffyrdd beicio neu lwybrau beicio Swyddi a gaiff eu creu Gwell canfyddiad o gyfleusterau/amwynderau Mwy o bobl yn defnyddio cyfleusterau/amwynderau Gwell canfyddiad/profiad o hygyrchedd

Mae'r canllawiau isod wedi eu gosod i gyd-fynd gyda cwestiynau sydd wedi eu cynnwys yn Ffurflen Gais Gronfa Cefnogi Adfywio Gwynedd

W5: Cynllunio a rheoli'r amgylchedd adeiledig a thirluniedig er mwyn 'cynllunio troseddu allan'.	<ul style="list-style-type: none"> Faint o dir y cyhoedd a gaiff ei greu neu ei wella Faint o ffyrdd beicio neu lwybrau beicio newydd neu wedi'u gwella a geir Nifer y gwelliannau a gaiff eu gwneud i gymdogaethau 	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu nifer yr ymwelwyr Mwy o ddefnydd o ffyrdd beicio neu lwybrau beicio Gwell canfyddiad o ddiogelwch Lleihau troseddau cymdogaeth
W7: Cefnogi gwelliannau teithio llesol a phrosiectau seilwaith trafnidiaeth werdd bach eraill, gan ystyried Strategaeth Drafnidiaeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> Faint o ffyrdd beicio neu lwybrau beicio newydd neu wedi'u gwella a geir Nifer y gwelliannau a gaiff eu gwneud i gymdogaethau Faint o dir y cyhoedd a gaiff ei greu neu ei wella Nifer y cyfleusterau a gaiff eu cefnogi/creu Faint o fannau gwyrdd neu las a gaiff eu creu neu eu gwella 	<ul style="list-style-type: none"> Mwy o ddefnydd o ffyrdd beicio neu lwybrau beicio
W14: Cyllid i gefnogi astudiaethau dichonoldeb perthnasol.	<ul style="list-style-type: none"> Nifer yr astudiaethau dichonoldeb a gaiff eu cefnogi 	<ul style="list-style-type: none"> Mwy o brosiectau yn deillio o astudiaethau dichonoldeb a gaiff eu cyllido
W26: Cefnogaeth i dyfu'r economi gymdeithasol leol, gan gynnwys busnesau cymunedol, cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol.	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi Nifer y busnesau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau Nifer y busnesau sy'n cael grantiau Nifer y busnesau sy'n cael cymorth anariannol Mwy o ddarpar entrepreneuriaid yn cael cymorth i baratoi i ddechrau busnes 	<ul style="list-style-type: none"> Swyddi a gaiff eu creu Swyddi a gaiff eu diogelu Nifer y busnesau newydd a gaiff eu creu Mwy o fusnesau yn cymryd rhan mewn marchnadoedd newydd Mwy o fuddsoddiad

GWYBODAETH AM Y PROSIECT YR YDYCH AM I'R GRONFA ARIANNU

15.	Enw'r Prosiect	Nodwch enw'r Prosiect yr ydych am i'r gronfa ei ariannu
16.	Lleoliad y prosiect	Nodwch ym mha ardal fydd y prosiect yn weithredol gan gynnwys cod post.
17.	Prif Flaenoriaeth Buddsoddi	<p>Nodwch sut mae eich cais yn cyfrannu at yr amcan isod</p> <p>Nod y Gronfa Adfywio Cymunedau yw i</p> <p>a) Darparu arian i ddatblygu neu weithredu prosiectau sy'n ymateb i faterion a blaenoriaethau lleol sydd wedi eu hadnabod o fewn Prosiect Ardal Ni 2023</p>

Mae'r canllawiau isod wedi eu gosod i gyd-fynd gyda cwestiynau sydd wedi eu cynnwys yn Ffurflen Gais Gronfa Cefnogi Adfywio Gwynedd

		<p>b) Darparu cefnogaeth er mwyn galluogi grwpiau, sefydliadau a mentrau lleol i gymryd rôl blaengar yng ngwella ardaloedd yn amgylcheddol, economaidd, gymdeithasol ac yn ddiwylliannol</p> <p>c) Cefnogi Mentrau Cymunedol newydd i sefydlu</p> <p>d) Cefnogi Mentrau Cymunedol sy'n bodoli'r barod i ddatblygu a thyfu</p> <p>Nodwch sut mae eich cais yn cyfrannu at oliaf un o'r amcanion uchod</p>
18.	Math y cais yr ymgeisir am dano	<p>Nodwch math y cais o'r Gronfa (Refeniw, neu Cyfalaf)</p> <p>Mae'r Gronfa Adfywio Cymunedol yn cynnig 3 cynllun grant sef</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Grant bach cyfalaf neu refeniw (£10,000 - £25,000) 2. Grantiau Gweithredu Prosiectau Adfywio: <ol style="list-style-type: none"> a) Refeniw yn unig (£25,001 - £75,000) b) Cyfalaf a refeniw (£25,001 - £200,000) <p>BYDD CEISIADAU UNIGOL WEDI EU CYFYNGU I UN O'R CYNLLUNIAU GRANT UCHOD</p> <p>Bydd yn arferol i'r cronfeydd ystyried grantiau hyd at 80%, o gostau'r prosiect, gan annog ceisiadau sydd yn gallu dangos olia 20% o arian cyfatebol. Mewn amgylchiadau arbennig bydd modd i'r gronfa ystyried ceisiadau hyd at 100%, lle gellir profi nad yw hyn yn bosib.</p> <p>Gweler cwestiwn 11 parthed TAW</p>
19.	Rhifau Ymyrraeth	Mae'r rhifau ac esboniad o'r ymyrraethau wedi eu nodi yn y tablau uchod. Yma noddwch rhifau'r ymyrraethau y mae eich prosiect yn ymateb iddynt – W1, W2, W3, W5, W7, W14, W26
20.	Targedau Allbynnau Dangosol	Mae'r targedau allbwn ar gyfer pob ymyrraeth wedi eu nodi yn y tablau uchod. Rydym yn argymhell eich bod yn dewis rhwng 3 a 5 targed allbwn ar gyfer pob ymyrraeth gan nodi enw'r allbwn a'r cyfanswm targed arfaethedig
21.	Targedau Canlyniadau Dangosol	Mae'r targedau allbwn ar gyfer pob ymyrraeth wedi eu nodi yn y tabl uchod. Rydym yn argymhell eich bod yn dewis rhwng 3 a 5 targed allbwn ar gyfer pob ymyrraeth gan nodi enw'r allbwn a'r cyfanswm targed arfaethedig
22.	Dyddiad Cychwyn y Prosiect	Dylid nodi yma y dyddiad yr ydych yn bwriadu cychwyn ar eich prosiect pe byddai'r cais yn llwyddiannus.
23.	Dyddiad Gorffen y Prosiect	<p>Dylid yma nodi y dyddiad yr ydych yn disgwyl cwblhau eich prosiect.</p> <p>Noder mae'n rhaid i bob cynllun sy'n cael ei ariannu drwy'r cronfeydd allweddol fod wedi eu cwblhau hawliadau ariannol erbyn 31 Rhagfyr 2024, ac ni fydd modd cael estyniad wedi'r dyddiad ym</p>

CERRIG MILLTIR Y PROSIECT

24.	Rhestrwch gerrig milltir eich prosiect, a nadwch ddyddiadau	<p>Dylid yma nodi eich amserlen i gwblhau holl elfennau eich prosiect, o dyddiad cychwyn y prosiect i ddyddiad gorffen y prosiect.</p> <p>Gofynnir i chi sicrhau bod cerrig milltir clir wedi eu hadnabod sydd yn dangos rhaglen ac amserlen gweithredu'r prosiect.</p> <p>Fe fydd y manylion y byddwch yn nodi yma yn cael eu hystyried fel rhan o broses asesu eich cais.</p>
-----	---	---

DISGRIFIAD O'R PROSIECT

25.	Trosolwg o'ch prosiect (hyd at 500 gair)	<p>Dylech ym roi trosolwg o beth fydd eich prosiect gan hefyd gyfeirio at weithgareddau, prif nodau ac amcanion eich prosiect.</p> <p>Noder nid oes rhaid i'ch cynllun ymateb i bob un o'r amcanion isod er mwyn llwyddo, ond awgrymir eich bod yn cynnig tystiolaeth ar gyfer pob amcan dilys er mwyn anelu i gyrraedd sgôr uchel.</p> <p>Dylid nodi yma</p> <ul style="list-style-type: none"> • Manylion buddion, cymunedol, cymdeithasol, a ieithyddol y gymuned • Manylion buddsoddiad a datblygiad yr economi leol • Manylion gwirfoddolwyr a chyfleodd cyfranogi i drigolion Gwynedd • Sut mae'r prosiect yn annog y gymuned i gymryd rôl mwy rhagweithiol o fewn yr ardal; • Sut mae'r prosiect y gwella lleoliadau sy'n bwysig i gymunedau • Sut mae'r prosiect yn cynyddu cyfleoedd gwaith, datblygiad sgiliau ymhlith unigolion o fewn cymunedau a hybu cyfle cyfartal i bawb. • Sut mae'r prosiect yn Annog, gwarchod a chyfoethogi'r amgylchedd
26	Pam bod angen y prosiect yn eich hardal? (hyd at 250 gair)	Dylech gyfeirio at unrhyw waith ymgynghori a rhoi tystiolaeth o angen y prosiect yn lleol yma
27.	Pwy fydd dyn elwa o'r prosiect? (hyd at 150 gair)	Yma dylech nodi pwy tu allan i'ch sefydliad fydd yn elwa o'r prosiect.

Mae'r canllawiau isod wedi eu gosod i gyd-fynd gyda cwestiynau sydd wedi eu cynnwys yn Ffurflen Gais Gronfa Cefnogi Adfywio Gwynedd

CYFLOG BYW GWIRIONEDDOL

28.	Rydw i / rydym ni yn cadarnhau y bydd unrhyw swyddi sydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r grant yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a byddaf yn gweithio tuag at achrediad Cyflog Byw	Os yn berthnasol i'ch cynllun dylid nodi bod unrhyw gyflogau grant sy'n cael ei ddefnyddio i dalu cyflogau yn talu'r cyflog byw. Yn ogystal bydd angen nodi erbyn pryd y byddwch yn gweithio i gwblhau achrediad cyflog byw
-----	---	---

CYNLLUNIAU A STRATEGAETHAU LLEOL

29.a	Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gydag amcanion Cynllun Gwynedd 2023-28.	Dylech nodi yma sut mae eich cynllun yn plethu gyda Chynllun Gwynedd 2023-28 .
29.b	Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu prosiect Ardal Ni 2035.	Dylech nodi yma sut bydd defnydd y grant yn plethu gyda prif faterion lleol sydd wedi eu hadnabod yn ystod gwaith Ardal Ni 2035 .
29.c	Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gydag amcanion Cynllun Celfyddydau Gwynedd	Dim ond os yn berthnasol i'ch cynllun dylid nodi yma sut mae eich cynllun yn plethu gyda Chynllun Celfyddydau Gwynedd .
29.ch	Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gydag amcanion Cynllun Digwyddiadau Gwynedd	Dim ond os yn berthnasol i'ch cynllun dylid nodi yma sut mae eich cynllun yn plethu gyda Canllawiau Digwyddiadau Gwynedd. Llawlyfr-Cymraeg---Master-v2.pdf (llyw.cymru)
29.d	Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gydag amcanion Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru	Dim ond os yn berthnasol i'ch cynllun dylid nodi yma sut mae eich cynllun yn plethu gyda Chynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru .
29.d	Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gydag amcanion Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035	Dim ond os yn berthnasol i'ch cynllun dylid nodi yma sut mae eich cynllun yn plethu gyda Chynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 .

YR IAITH GYMRAEG

30.	A oes gan eich sefydliad Bolisi neu Ddatganiad Iaith Gymraeg	Os nad oes, amlinellwch sut y byddwch yn defnyddio'r grant i sicrhau gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd? Gall hyn gynnwys eich gwasanaethau (a chyfarfodydd) wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, deunydd printiedig, arwyddion a thudalennau gwefan.
-----	--	---

Mae'r canllawiau isod wedi eu gosod i gyd-fynd gyda cwestiynau sydd wedi eu cynnwys yn Ffurflen Gais Gronfa Cefnogi Adfywio Gwynedd

SERO NET

31.	Sut mae'r cynnig yn cefnogi polisiau neu uchelgeisiau amgylcheddol ehangach Sero Net Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru? (150 gair)	Dylech ateb i'r cwestiwn hwn fod yn benodol i'r prosiect yr ydych yn ceisio am arian ar ei gyfer
-----	---	--

CYDRADDOLDEB

32.	Disgrifiwch sut ydych chi wedi ystyried effeithiau cydraddoldeb eich cynnig, y grwpiau perthnasol a effeithir yn seiliedig ar y nodweddion gwarchoddedig, ac unrhyw fesurau yr ydych yn eu cynnig mewn ymateb i'r effeithiau hyn. (150 gair)	Dylech ateb i'r cwestiwn hwn fod yn benodol i'r prosiect yr ydych yn ceisio am arian ar ei gyfer
-----	--	--

PROFIAD A CHAPASITI'R YMGESIYDD

33.	Pa brofiad sydd gan eich sefydliad o gyflwyno'r math, maint ar raddfa hon o weithgarwch prosiect (hyd at 200 gair)	Dylid cyfeirio yma at enghreifftiau o brosiectau tebyg neu tebyg eu maint y mae eich sefydliad wedi eu cyflawni yn y gorffennol
-----	--	---

Mae'r canllawiau isod wedi eu gosod i gyd-fynd gyda cwestiynau sydd wedi eu cynnwys yn Ffurflen Gais Gronfa Cefnogi Adfywio Gwynedd

ARIANNOL

34.	Cyfanswm cost y prosiect	Dylid nodi yma union gost y prosiect yn ei gyfanrwydd
35.	Cyfanswm y grant drwy'r gronfa yma gwneir cais amdano	Dylid nodi yma faint o arian drwy'r gronfa yma yr ydych yn ceisio amdano
36.	Ffynhonnell a Swm yr arian cyfatebol	Os ydych wedi sicrhau arian cyfatebol ar gyfer eich prosiect, nodwch yma cyfanswm yr arian cyfatebol sydd wedi ei sicrhau ac o ble mae'r arian wedi ei sicrhau
37.	Os ydych yn gofyn am 100% o gost eich prosiect nodwch eich rhesymeg dros hynny	Wrth ateb y cwestiwn ym dylech gyfeirio at werth am arian eich cynllun
38.	Sut ydych wedi caffael eich prosiect	Dylid nodi yma sut ydych wedi mynd allan am brisiau ar gyfer eich prosiect ac esbonio pam eich bod yn bwriadu defnyddio un cwmni dros y llall, gan ddangos y gwerth am arian. Yn ychwanegol i'r canllawiau rydym hefyd wedi darparu manylion ac ymarfer da mynd allan am brisiau ar gyfer eich prosiect, ac rydym yn awgrymu eich yn eu darllen yn ofalus. Noder bydd angen i chi anfon pob dyfynbris yr ydych wedi ei dderbyn ar gyfer y prosiect gyda'r ffurflen gais.



CRONFA CEFNOGI ADFYWIO SPF GWYNEDD: CANLLAWIAU MANWL



Mae'r canllawiau isod wedi eu gosod i gyd-fynd gyda cwestiynau sydd wedi eu cynnwys yn Ffurflen Gais Gronfa Cefnogi Adfywio Gwynedd

PROFFIL GWARIANT Y PROSIECT Y PROSIECT		Nodwch enw'r cyd arianwyr isod /Please note match funders below					
Enw'r eitem a'r gost <i>Item and cost</i>		Cronfa Cefnogi Adfywio Cymunedau	Cyfanswm <i>Total</i>
1.	£						
2.	£						
3.	£						
4.	£						
5.	£						
6.	£						
Cyfanswm <i>Total</i>	£						



Mae'r canllawiau isod wedi eu gosod i gyd-fynd gyda cwestiynau sydd wedi eu cynnwys yn Ffurflen Gais Gronfa Cefnogi Adfywio Gwynedd

RHEOLI CYMORTHDALIADAU

Mae'n ofynnol ar ymgeiswyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio yn llawn gyda rheoliadau cymorthdaliadau y DU.		
39.	A oes unrhyw agwedd o'r prosiect yn cynnwys gweithgaredd masnachol	Nodwch os yw'r gweithgaredd a fydd yn cael ei ariannu drwy'r gronfa yma yn weithgaredd masnachol
40.	Os ydyw, eglurwch yn gryno beth yw'r weithgaredd masnachol	Os nodwch Ydi i gwestiwn 40 esboniwch beth yn union yw'r weithgaredd masnachol (200 gair)

CRYNODEB

BETH SYDD ANGEN EI GYFLWYNO GYDA'R CAIS?

Rhaid i bob ymgeisydd dychwelyd yr eitemau canlynol;

- Ffurflen Gais
- Copi o Gyfansoddiad y Sefydliad wedi ei arwyddo a'i ddyddio
- Tystiolaeth o amcan brisiau / dyfynbrisiau ar gyfer costau'r cynllun
- Copïau o ddatganiad banc mwyaf diweddar y grŵp(ar gyfer pob cyfrif)
- Tystiolaeth o unrhyw gyfraniadau eraill tuag at y cynllun (tystiolaeth o arian cyfatebol y cynllun)
- Cynllun Busnes neu wybodaeth addas arall sy'n dangos bod y cynllun yn hyfyw
- Cynllun Rheoli digwyddiad (Os yn berthnasol)
- Polisi Iaith Gymraeg
- Polisi Cydraddoldeb
- Olfaf 3 llythyr cefnogaeth ac unrhyw dystiolaeth arall all gefnogi eich cais
- Tystiolaeth o ganiatâd cynllunio, neu dystiolaeth ysgrifenedig gan yr awdurdod perthnasol yn cadarnhau nad oes rhaid cael caniatâd cynllunio os yn berthnasol)
- Tystiolaeth Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu neu dystiolaeth ysgrifenedig gan yr awdurdod perthnasol yn cadarnhau nad oes angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu (os yn berthnasol)